OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 665 (Cy.55)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2005

Wedi'i wneud	- -	*8 Mawrth 2005*
Yn dod i rym	- -	*1 Ebrill 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ar ôl iddo ymgynghori â'r personau hynny y mae'n ofynnol, gan adran 4(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999(**1**), iddo ymgynghori â hwy, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 4(1)(a) a (2) ac adran 29(1) o'r Ddeddf honno .

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2005 a daw i rym ar 1 Ebrill 2005.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru yn unig.

Dangosyddion Perfformiad

2. Y dangosyddion perfformiad a bennir ar gyfer cynghorau sir a chynghorau bwrdeistrefi sirol, gan gynnwys, pan fo hynny'n briodol, dangosyddion perfformiad o ran swyddogaethau a arferir ganddynt fel awdurdodau gwaredu gwastraff, o ran y swyddogaethau a nodir yn y tabl isod, yw'r dangosyddion perfformiad a roddir yn y tabl hwnnw.

TABL

Swyddogaethau'r Awdurdodau Gwerth Gorau a'r Dangosyddion Perfformiad y Mesurir Perfformiad y Swyddogaethau hynny drwyddynt

Gwasanaethau Cymdeithasol
Pob dangosydd yn Atodlen 1
Tai

(**1**) 1999 p.27.

Pob dangosydd yn Atodlen 2

Addysg

Pob dangosydd yn Atodlen 3

Rheoli Gwastraff

Pob dangosydd yn Atodlen 4

Trafnidiaeth/Priffyrdd

Pob dangosydd yn Atodlen 5

Diogelu'r Cyhoedd

Pob dangosydd yn Atodlen 6

Effeithlonrwydd Ynni

Pob dangosydd yn Atodlen 7

Budd-daliadau Tai a Budd-daliadau Dreth Gyngor

Pob dangosydd yn Atodlen 8

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**).

D. Elis-Thomas
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

8 Mawrth 2005

(**2**) 1998 p.38.

ATODLEN 1 Erthygl 2

DANGOSYDDION GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Rhif y Dangosydd	**Prif ddangosydd**
NS1	Cyfradd yr oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu drosodd.
NS2	Cyfradd y bobl oedrannus (65 oed neu drosodd): (a) y rhoddwyd cymorth iddynt i fyw gartref, fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd; a (b) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd.
NS3	(a) (a) canran y lleoliadau cyntaf i blant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn a ddechreuodd gyda chynllun gofal ar waith; a (b) ar gyfer y plant hynny sy'n derbyn gofal yr oedd eu hail adolygiad (a oedd i fod ar ôl 4 mis) i fod wedi'i gwblhau yn ystod y flwyddyn, canran gyda chynllun ar gyfer sefydlogrwydd adeg y dyddiad priodol.
NS4	Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd â phrofiad o symud ysgol unwaith neu fwy yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, nad oedd y symud hwnnw oherwydd trefniadau trosiannol, yn y 12 mis hyd at 31 Mawrth.

ATODLEN 2

DANGOSYDDION TAI

Rhif y Dangosydd	**Prif ddangosydd**
NS5	(a) (a) Nifer y teuluoedd digartref gyda phlant sy'n defnyddio llety gwely a brecwast, ac eithrio mewn argyfyngau; a (b) cyfartaledd nifer y dyddiau y mae pob aelwyd ddigartref yn treulio mewn llety dros dro.